

anthem.

a wales in which music can
empower every young life

Gwybodaeth bellach ar y rhai sy'n derbyn arian yng nghylch cyntaf Cronfa Atsain

Art & Soul Tribe

Mae Art And Soul Tribe wedi ymrwymo i ddarparu llwyfan a llais i grwpiau sydd ar y cyrion, sydd wedi'u hallgáu a'u cam-drin, ac unigolion sydd wedi wynebu anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Bydd prosiect Bridging the Gap yn caniatáu i bobl ifanc leol 13-18 oed yn ne-ddwyrain Cymru na fyddai â mynediad i hyfforddiant cerddorol fel arfer gael y cyfle i archwilio, dysgu ac adrodd storiâu drwy gyfrwng cerddoriaeth a sain. Gyda phwyslais penodol ar niwroamrywiaeth, iselder a gorbryder, amddifadedd economaidd a cheiswyr lloches, bydd yn gweithio gyda charfan o bobl ifanc i greu a datblygu gofodau diogel a sesiynau i ddysgu sgiliau newydd, dod i gyswllt â cherddorion proffesiynol a dysgu oddi wrthynt, a chydweithio i gydgyhyrchu digwyddiad o berfformiadau terfynol mewn lleoliad cerddoriaeth lleol.

Beacons

Mae Beacons yn sefydliad sy'n gweithio ledled Cymru. Ei nod yw grymuso'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc sy'n awyddus i weithio yn y diwydiant cerddoriaeth. Bydd yn ceisio chwalu'r rhwystrau i bobl ifanc sy'n ystyried eu hunain yn rhywedd a ymleiddiwyd – menywod, anneauidd, a dynion traws – sy'n ceisio dilyn gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth. Bydd yn datblygu sgiliau gweithlu newydd ac yn helpu i fynd i'r afael ag anghydbwysedd yn y rhyweddau yn y sector cerddoriaeth fyw yng Nghymru.

Canolfan Gerdd William Mathias

Mae Canolfan Gerdd William Mathias yn darparu hyfforddiant cerddorol a phrofiadau perfformio cerddorol o'r safon uchaf yng ngogledd Cymru, gan feithrin mwynhad a chyfranogiad o gerddoriaeth. Dros gyfnod o flwyddyn, bydd y prosiect hwn yn datblygu ac ehangu darpariaeth gerddorol i blant a phobl ifanc anabl yng Ngwynedd a Sir Ddinbych drwy gynnal clybiau cerdd a sesiynau arddangos mewn partneriaeth â theuluoedd ac asiantaethau, a sesiynau cerddoriaeth mewn ysgol feithrin newydd i blant anabl.

Deaf Hub Wales

Mae Deaf Hub Wales yn darparu gweithgareddau sy'n cyfoethogi bywydau pobl Fyddar a'u lles yn gyffredinol. Bydd y prosiect yn cynnig sesiynau cerddoriaeth sy'n archwilio gwahanol genres i blant Byddar, a'r penllanw fydd sesiwn arddangos yng Ngŵyl Celfyddydau Byddar 2023.

Celfyddydau Anabledd Cymru

Celfyddydau Anabledd Cymru yw'r prif sefydliad ar gyfer Celfyddydau Anabledd yng Nghymru. Bydd prosiect Llwybrau at Gerddoriaeth yn dwyn pobl ifanc anabl a Byddar ynghyd ledled Cymru i arwain a datblygu chwech o weithdai i bobl ifanc 16-30 oed, gan roi offer pwrpasol a hygyrch iddynt ddechrau cyfansoddi, chwarae a pherfformio cerddoriaeth. Dyma fydd y cynllun cerddoriaeth cyntaf ledled Cymru i gael ei arwain gan bobl anabl ar gyfer pobl ifanc sydd eisiau bod yn creu cerddoriaeth gyfoes.

Gwallgofiaid

Mae Gwallgofiaid yn darparu gweithdai a chyfleoedd yn y celfyddydau i bobl ifanc Bro Ffestiniog a Gwynedd. Bydd y prosiect yn ymgysylltu â cherddorion a chynhyrchwyr proffesiynol i gynnal sesiynau cerddoriaeth a recordio i bobl ifanc mewn stiwdio newydd ym Mro Ffestiniog.

Media Academy Cymru

Mae Media Academy Cymru ar flaen y gad yng Nghymru wrth gefnogi plant a phobl ifanc pan fo angen cymorth arnynt neu rywle diogel i droi. Bydd y prosiect hwn yn cynnal dosbarthiadau meistr cerddoriaeth misol ar draws cymunedau llai cefnog yn ne Cymru. Gan weithio gyda dau ymarferydd yn y diwydiant a rhwydwaith o bartneriaid, bydd y prosiect yn annog rhai sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i gerddoriaeth, gan gynnwys pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, cymunedau ethnig amrywiol, pobl niwroamrywiol a'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth ar hyn o bryd. Bydd y dosbarthiadau meistr yn helpu'r bobl ifanc i

ddatblygu eu sgiliau a'u brandiau ac yn cynnig cymorth i ymuno â rhaglenni cerddoriaeth mewn addysg ehangach neu gyflogaeth.

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru yn gweithio i ddatblygu perfformwyr ifanc mwyaf talentog Cymru a rhai sydd â photensial drwy gyfleoedd hyfforddiant a perfformio o'r radd flaenaf. Prosiect cerddoriaeth gyfoes yw Cerdd y Dyfodol sy'n nodi ac yn meithrin cerddorion ifanc addawol o Gymru. Mae'n canolbwyntio ar amrywiaeth eang o genres cyfoes, o Grime i Indie, ac o Electronica i RnB. Gan greu mynediad i bobl ifanc o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli yng Nghymru, mae'n cynnig profiad helaeth o ddatblygu sgiliau i'w paratoi at yrfa hyfyw yn y diwydiant cerddoriaeth. Bydd cyllid Atsain yn cynorthwy Gig Cerdd y Dyfodol i fynd ar daith i rai o brif leoliadau celfyddydol Cymru ym mis Awst 2022.

Operasonic

Mae Operasonic yn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu pŵer creadigol i adrodd storïau a dathlu eu cymunedau, a'u galluogi i fynegi eu hunain drwy gerddoriaeth. Bydd y prosiect hwn, sy'n rhan o bartneriaeth Hwiangerddi Carnegie, yn defnyddio hwiangerddi i archwilio sut gall cerddoriaeth fod yn fwy hygyrch a deniadol i blant Byddar ifanc iawn. Bydd yn dod â thîm creadigol Byddar a theuluoedd ynghyd i ddatblygu ymarfer newydd.

Sound Progression

Ynglŷn â'r prosiect:

Mae Next Level wedi'i ddylunio i hybu talentau cerddorol trefol a'u hwyluso i symud i mewn i'r diwydiant cerddoriaeth. Drwy gyfres o weithdai i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac chyd-ymarfer, a phrosiectau pwrpasol dan arweiniad cyfranogwyr i adeiladu portffolios, proffiliau a phartneriaethau, y nod yw meithrin perthnasoedd, llwyfannu cyfleoedd a sefydlu llwybrau dilyniant newydd.

Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon

Bydd cyllid Atsain yn cynorthwyo ac yn datblygu Prosiect Cerddoriaeth yr Afon – prosiect amlddiwylliannol a fydd yn pontio'r cenedlaethau ac a fydd yn cynnwys gweithdai drymio, canu ac offerynnau. Bydd y prosiect yn ceisio cynrychioli a bod yn gynrychioliadol o'r holl gymunedau yn ardal Glan yr Afon yng Nghaerdydd, a chreu synnwyr o hawl i gyfleoedd ym maes y Celfyddydau a Diwylliant lle nad ydynt wedi bod yn cael eu cynnig hyd yma.

Theatr Brycheiniog

Mae Theatr Brycheiniog yn darparu rhaglen amrywiol o theatr, dawns, cerddoriaeth ac adloniant yng nghanol Aberhonddu, gan wasanaethu'r dref ac ardaloedd cyfagos Powys, Sir Fynwy a thu hwnt. Bydd y prosiect hwn yn sefydlu grŵp cynhyrchu o bobl ifanc i greu rhaglen gerddorol i'r Theatr. Bydd yn datblygu cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi'u dylunio, eu curadu a'u harwain gan bobl ifanc i bobl ifanc.

Trac Cymru

Trac Cymru yw'r sefydliad datblygu cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol. Mae'n cefnogi cymunedau i ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol fywiog Cymru gan bontio'r cenedlaethau.

Bydd y prosiect yn cefnogi pobl ifanc sydd ar y cyrion i fynegi'u profiadau personol eu hunain gan ddefnyddio traddodiadau gwerin adrodd storïau yn llawn mynegiant a gwybodaeth gyfunol.

View Glynneath

Mae View Glynneath yn un o ddeuddeg o Sefydliadau Angori Cymunedol sy'n darparu gwasanaethau cymunedol ledled Castell-nedd Port Talbot. Bydd y prosiect hwn yn cyflwyno cerddoriaeth i bobl ifanc ar y cyrion wyneb yn wyneb, mewn clybiau ieuenctid lleol, mewn ysgolion a pharciau neu ar gornel stryd, ac yn ddigidol.

Wilderness Trust

Yn seiliedig mewn dau gapel yn Llanidloes sydd wedi'u trawsnewid i fod yn ganolfannau amgylcheddol, mae'r Wilderness Trust yn defnyddio'r amgylchedd, celf, cynhwysiant cymdeithasol ac addysg i helpu cymunedau i ddysgu, arbrofi, cysylltu, mwynhau natur a thyfu. Bydd y prosiect hwn yn darparu gweithdai cerddoriaeth a chyngherddau i fabanod, plant bach a phlant sydd ag anableddau dysgu.